# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**

RHIF 6 – NADOLIG 2005





Llun – HDJ

# ADAR DRYCIN

## – YMWELWYR O BOB CWR!

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- GWYLANOD Y GLASLYN
- CYSGOD SYDYN DROS Y WAUN
- RHAI O DEITHIAU DIWEDDAR Y GYMDEITHAS

***ER BUDD ADAR A BYD NATUR***

## Golygyddol

Dyma ni wedi cyrraedd ail rifyn Nadolig ***Llygad Barcud***, a dyddiau hir yr haf bellach yn ddim ond atgof. Wedi haf digon dymunol ar y cyfan, diflannu yn ddigon swta oedd ei hanes yn y diwedd (fel ag y gwna bob blwyddyn ynte!), ac er i'r tymheredd aros yn gynnes (yn annaturiol felly bron), daeth stormydd mis Hydref a digonnedd o'r glaw yr oedd llawer wedi crefu amdano ychydig wythnosau ynghynt! Partner arferol Ifan y glaw, wrth reswm yw Morus y gwynt, a daeth yntau i ymweld a ni yng Nghymru fach hefyd (dylem ystyried ein hunain yn reit ffodus nad ei gyfneitherod, Rita a Wilma a alwodd draw! Aeth y corwyntoedd hyn, yn ôl eu harfer, ar eu gwyliau i Fflorida eto eleni.) Ond fel adarwyr, wrth gwrs, mae gan wyntoedd hydrefol eu gwobrau eu hunain, ar ffurf yr amrywiaeth o adar 'diarth' a chwythir i Gymru yn eu sgîl. Ceir hanes dau o'r rhai mwyaf diddorol ohonynt yn y rhifyn hwn o ***Llygad Barcud.***

Ac yna, tua canol mis Tachwedd, daeth y tywydd oer – fe barodd hwn am ryw bythefnos, a buom yn ffodus o weld gwasgedd uchel yn dod a llawer o heulwen i ni. Ochr arall y geiniog arbennig hon fodd bynnag oedd fod y nosweithiau'n fferu, a chaled iawn fu hi ar lawer o'n hadar bach, tybiaf. Yn sicr, bu'r cnau mwnci a'r hadau, y bara a'r hen afalau a ddarperid mewn sawl gardd yn gymorth amhrisiadwy i'r adar, yn arbennig y rhai lleiaf fel y titwod a'r drywod sydd yn dioddef fwyaf pan fo'r tywydd yn oer. A hithau'n nesu at y 'Dolig, a ninnau yn ein cartrefi clyd, cysurus, cynnes, hawdd iawn yw i ni anghofio pa mor erwin y gall fod y tu allan. Yn arbennig felly eleni a hwythau'n gaddo un o'r gaeafau oeraf ers tro byd. Ond unwaith y bydd dyddiau duon bach troad y rhod, y Nadolig, a'r flwyddyn newydd wedi mynd heibio, gallwn edrych ymlaen yn obeithiol i weld y dydd yn ymestyn gam ceiliog ar y tro ac i groesawu tymor newydd. Fel hyn y bu hi erioed ynte, a siawns na fydd hi'r un fath yn 2006! Bydd pawb bellach yn edrych allan am arwyddion cyntaf y gwanwyn, a buan iawn wedi hynny y daw adar fel y siff-saff a'r gwenoliaid yn ôl i Gymru fach - arwydd parod fod yr hen aeaf wedi mynd heibio unwaith eto. Yr ydw i beth bynnag yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld ei gefn! [GOL]

Diolch i bawb a alwodd heibio i'n gweld ar ein stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Faenol ym mis Awst, ac wrth gwrs i bawb a fu'n gweithio mor ddygun yn trefnu ac yn edrych ar ôl y stondin.
Enillwyr y raffl oedd

1. Mrs Ella Lloyd, Llanfyllin (a enillodd daith i'r teulu gyda Iolo Williams!)
2. Mrs Dwynwen Thomas, Blaenau Ffestiniog
3. Mr. Evie M. Jones, Dyffryn Ardudwy

**Nodyn gan y Trysorydd**
Dyma ni fel Cymdeithas ar ddechrau ein trydedd blwyddyn ers Tachwedd 1af; daeth yn amser i'ch hatgoffa am y dâl aelodaeth, def £8 i unigolion a £10 i deuluoedd. Diolch yn fawr i'r aelodau a dalodd yn barod. Mae gennym tua 140 o aelodau ar hyn o bryd, ac mae'r Gymdeithas yn dal i dyfu. Soniodd sawl un mor anodd yw cofio adnewyddu'r aelodaeth. Os felly, mae croeso i chwi

gymryd mantais o'r trefniadau a wnaethpwyd gyda'r banc i dalu gyda Gorchymyn Banc Sefydlog. Amgaëir taflen gyda'r cylchlythyr I'r perwyl hwn.

**Y Sefyllfa Ariannol**

Gwerthwyd gwerth £341 o docynnau raffl yn yr Eisteddfod, a gwerthwyd gwerth £384 o nwyddau. Rhaid cydnabod rhodd hael Anwen Breeze Jones o £425 tuag at gostau'r babell yn yr Eisteddfod. Diolch yn fawr Anwen.
Mae'r sefyllfa ariannol yn foddhaol gyda £2353 yn y Banc ar Hydref 31ain 2005. Hoffwn ddiolch i chi fel aelodau am roddion, ac am eu gwaith rhad ac am ddim i'n siaradwyr gwadd ac arweinyddion y teithiau. Mae Ymddiriedolwyr Rebecca yn parhau i'n cefnogi hefyd.

Hoffwn ddiolch ar eich rhan yn arbennig i Rhodri, ein hysgrifennydd, ac i Twm, ein Cadeirydd, am eu gwaith called a diflino eto eleni er sicrhau llwyddiant y Gymdeithas.

D.B. Paul, Trysorydd


**LLYGAD BARCUD** - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

**Rhif 6 – Nadolig 2005**

**Golygyddion –**
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr –**
Twm Elias (Plas Tan y Bwlch), Huw Dafydd Jones, Tom Jones, Dewi Lewis, Elfyn Lewis, Gwilym Tudur, Rhodri Dafydd (CCGC)

Pob erthygl a llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**

**Llywydd –**
Iolo Williams

**Cadeirydd a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 590 324

**Trysorydd –**
Brian Paul, Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–**
Rhodri Dafydd, 2 Ty'n Ddol, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TN, (01678) 540 545

**Ysgrifennydd Aelodaeth –**
Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd mis Chwefror os gwelwch yn dda.**

# Adar Drycin

Twm Elias

**Ydach chi wedi sylwi ar yr heidiau o Adar Drycin, neu Adar yr Eira sy' o gwmpas y dyddiau yma. Hynny ydi, heidiau o Ddrudwenod, Tresglod, Socan Eira a Coch Dan Adain. Mae nhw i'w gweld yr adeg yma bob blwyddyn ydydyn nhw? – weithiau yn heidiau mawr o gannoedd, neu filoedd o adar, er mai heidiau bach – rhyw chydig ddwsinau ar y tro yr ydw i wedi eu gweld hyd yma hefyd.**

Adar mudol ydi y rhain, sy'n d'wad bob blwyddyn o Scandinafia a dwyrain Ewrop i osgoi'r gaeafau llawer iawn caletach geir yno, o gymharu a'n gaeafau tyner, anwydog ni yma ar yr arfordir gorllewinol gwlyb. Lli'r Gwlff, wrth gwrs, sy'n ein cadw ni yn gynnes ac mae'n dda ei gael o hefyd – tra pery o ynde? Oherwydd, mae rhai yn darogan y bydd y lli cynnes yma o'r Caribî yn arafu a gorffen cyn bo hir wrth i'r byd gynhesu – a gwae ni wedyn ynde?

Ow! Fe fydd hynny'n golygu y cawn ni aeafau oer fel dwyrain Canada – sydd yn ofnadwy o eironig rhywsut – sef y byddwn ni, er gwaetha'r cynhesu byd eang, yn mynd i gael gaeafau llawer iawn oerach, tra yr aiff rhannau eraill o'r byd yn grasboeth. Ond dyna sydd i'w ddisgwyl mae'n debyg – am y bydd y cynhesu yn cael gwahanol effeithiau ar wahanol rannau o'r byd. E'lla y bydd raid i ninnau, wedyn, fel yr adar, ymfudo i'r de dros y gaeaf yn y dyfodol. Fe fuasa hi'n syniad da prynu tŷ gaeaf yn Sbaen yn buasa – yn barod at hynny? Mae rhai wedi gwneud yn barod!

Mae'r Adar Drycin, neu Adar yr Eira, yn cael eu galw yn hynny am y byddan nhw, yn aml iawn, yn cyrraedd jyst o flaen stormydd – yn enwedig jyst cyn y ffryntiau oer sy'n d'wad ag eira o'r gogledd. A mae nhw'n arwyddion tywydd eithriadol o dda gyda llaw! Ymateb i'r tywydd y mae'r adar, yn naturiol – hynny ydi, os oes digon o fwyd yn dal yn Sgandinafia, ar tywydd yn dal yn iawn, fe arhosa llawer ohonyn nhw ar ôl yno, a symud ddim ond pan fo raid ynde? Ond, un diwrnod fe newidith cyfeiriad y gwynt ac fe ddaw'n eira mawr. A bryd hynny fe aith y neges ar led: "O! o!, Well i ni fynd" yn iaith yr adar ynde? Ac fe fyddan nhw'n heidio, a hedfan atom ni, gan gadw o flaen y ffrynt o rhyw ddiwrnod neu ddau, neu hyd'noed ychydig oriau.

Felly, pan welwch chi heidiau mawr o'r adar 'ma yn cyrraedd, 'sa'n well ichi chwilio am eich dillad cynnes a stocio digon o fwyd, cwrw, tanwydd, batris, a canhwyllau yn y tŷ – jyst rhag ofn ynde?

Mae 'na beth wmbrath o enwau lleol ar yr adar 'mudol 'ma o Scandinafia ac 'mbach o gymysgedd ynglyn a be 'di be weithiau – lwcus bod 'na enwau safonol erbyn heddiw felly ynde?

***Y Ddrudwen*** – hon, yn ôl y stori yn y Mabinogion, ddaeth a'r neges i Bendigeidfran bod Branwen, ei chwaer, yn cael ei hambygio yn Iwerddon ynde? A pha well deryn i gario'r neges adre – yn ddynwaredwr mor dda ac yn hawdd i'w dysgu i siarad? Mae'n cael ei galw hefyd yn Trwdan (lluosog: Trwdwns), Deryn Drycin, neu jyst Y Ddrycin, Deryn Eira a Dyrnod yr Eira. Drudwenod, yn sicr, ydi'r pencampwyr am heidio – ac fe gewch chi gymylau duon o ddegau neu gannoedd o filoedd ohonyn nhw yn llifo drwy'r awyr cyn disgyn i glwydo gyda'r nos mewn gwely cyrs neu o dan Bier Aberystwyth. Haid o 2 filiwn ydi'r record,

gyda llaw, ac fe welwyd yr haid honno ym Mynachlog Ddu, Sir Benfro ym 1979.

***Y Dresglen*** neu'r Fronfraith Fawr – a elwir hefyd yn: Gaseg Ddrycin, Sgrechgi [sy'n enw da iawn o feddwl pa mor swnllyd ydi hi!], Deryn Penllwyn, Crecar a Crogell y Coed. Mae hon yn nythu yma yng Nghymru – ond fe fydd llawer o'r rhai welwn dros y gaeaf wedi dwad o Scandinafia hefyd.

***Y Goch Dan Adain*** – un fach glws iawn ydi hon ac yn cael ei galw yn Adain Goch, Tresglen Goch yn ogystal a Deryn/Socan yr Eira.

A'r ***Socan Eira*** ei hun – hefo'i chefn a'i phen llwyd, bron fraith a blaenau'r adenydd a'r gynffon yn ddu. Enwau eraill arni ydi: Caseg Ddrycin, Caseg Eira, Aderyn Eira, Bronfraith Eira, Y Gefnlwyd a Socan Lwyd. Yn Scandinafia mae hon yn nythu – yn griwiau mawr – ddegau o nythod yn yr un coeden weithiau. A mae nhw'n gwneud hynny i amddiffyn eu hunain. Oherwydd, os daw unrhyw ddyn neu greadur yn rhy agos – fe ymosoda'r adar i gyd arno fo – gan ei ddeif-bomio'n ddi-drugaredd – nes bydd o'n blastar drosto o faw adar! A mae nhw'n eithriadol o fanwl eu haneliad hefyd – felly, os ydach chi'n byw yn Scandinafia ac os ydi'ch llwybr yn mynd heibio nythfa – wel, cap, gogls, a hen ddillad piau hi, a cadw'ch ceg ar gau ynde? Neu gwell fyth, newid eich llwybr – a chadw'n ddigon pell!!



### Cyfri adar yr ardd gyda *'Garden Birdwatch'* y BTO

Gyda'r rhifyn hwn o ***Llygad Barcud*** amgaeir taflen newydd sbon gynhyrchwyd gan y BTO i'ch hannog i ddechrau cofnodi'r holl adar a ddaw i'ch gardd.




Cawsom eisoes erthygl gan Dewi Lewis yn ail rifyn ***Llygad Barcud*** ar gyfri adar mewn gardd - a difyr oedd gweld mai Dewi a fu wrthi'n cyfieithu'r daflen hon o'r Saesneg!

Rwy'n siŵr fod amryw ohonoch yn mwynhau cyfri a sylwi ar yr adar a ddaw at eich bwrdd adar neu'ch cewyll cnau yn ystod misoedd y gaeaf – wel beth am fynd ati i gyfuno hyn a chyfrannu at waith ymchwil pwysig all arwain at ddarganfod pethau newydd sbon am ein hadar mwyaf cyffredin? A minnau newydd symud tŷ rydw i'n bendant am ddechrau – ar fy niwrnod cyntaf cefais naw titw tomos efo'i gilydd, dau ditw penddu, dau ditw mawr, adar to, dwy durtur dorchog, jac doeau, llwyd y gwrych, robin goch, aderyn du – ac rwy'n edrych ymlaen i weld be arall gaf i!


## Adar y Glaslyn
Rhan 3 – Gwylanod

Elfyn Lewis

**Wrth feddwl am wylanod, delwedd o adar ffyrnig, swnllyd yw'r un cyntaf a ddaw i feddwl y rhan fwyaf ohonoch mae'n siŵr. Fe'i hystyriwn fel adar sydd yn gwneud llanast yn ein strydoedd, yn ymosod ar ymwelwyr diniwed gan ddwyn eu hufen ia neu sglodion, neu sydd yn ein deffro ar doriad gwawr gyda'u galwadau swnllyd aflafar. Mae'n wir dweud nad ydynt ymysg yr adar mwyaf poblogaidd ymysg y cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyd yn oed ein Llywydd anrhydeddus wedi mynegi ei atgasedd o'r teulu adaryddol yma sawl gwaith ar y teledu!**

Trwy gyfrwng yr ychydig eiriau hyn ceisiaf achub cam y gwylanod gan obeithio y byddwch, o hyn ymlaen, yn edrych yn fwy ffafriol a gydag ychydig o edmygedd arnynt. Maent yn adar amrywiol iawn eu maint a'u harferion, a bydd rhai ohonynt, fel y cewch weld, yn teithio pellter maith i gyrraedd ein hardal.

Y ddau fath o wylanod sydd fwyaf cyfarwydd a niferus a welir yn ardal Porthmadog yw'r wylan benddu a gwylan y penwaig.



Gwylan y penwaig — Llun - HDJ

Mae'n debyg eich bod i gyd yn adnabod y ddwy rywogaeth yma, ac fe'i gwelir yn ddyddiol, a thrwy gydol y flwyddyn ar gorsydd a morfa'r Glaslyn. Ar adegau o dywydd garw ceir heidiau o rai cannoedd neu filoedd hyd yn oed yn yr ardal. Dyma'r ddau aelod o deulu'r gwylanod sydd wedi rhoi enw drwg i'r gweddill mi dybiaf. Efallai y bydd rhai ohonoch yn synnu bod deuddeg math arall o wylanod wedi eu cofnodi yn ardal Porthmadog.

Gwylan weddol gyffredin hefyd yw gwylan y gweunydd – gwelir hi yn rheolaidd y tu allan i'r tymor nythu.

Ceir heidiau mawr o rai cannoedd ar y gors ar adegau yn ystod y tymor mudo ac yn ystod stormydd gaeafol. Gwelir niferoedd bychain o'r wylan gefnddu fwyaf yma drwy gydol y flwyddyn, ond ymwelydd yn ystod yr haf yn unig, (a hynny o ogledd yr Affrig), yw'r wylan gefnddu leiaf yn benodol, er fod ambell unigolyn dewr i'w gweld yn y gaeaf.

Yr wylan goesddu yw'r wylan fwayf 'forol' o'r rhai a gofnodwyd yn ardal Port. Fe'i gweiir yn aml oddiar draeth y Greigddu yn enwedig yn ystod y tymor mudo – er bod heidiau yn cael eu chwythu tua'r Cob yn ystod tywydd garw y gaeaf yn ogystal.

A dyna felly y gwylanod cyffredin y mae'n bosib i chi eu gweld ar hyd yr arfordir ac ar y gwlyptiroedd o gwmpas Porthmadog drwy gydol y flwyddyn, fwy neu lai. Ymwelwyr anghyffredin neu brin, o ogledd America, gwledydd y gogledd a chyfandir Ewrop yw'r gweddill o'r gwylanod a welwyd yn yr ardal.

Gadewch i mi ddechrau gyda'm hoff wylan – ac yn wir, fy hoff aderyn – sef gwylan môr y canoldir. Mae'r oedolyn (sydd yn ei wisg blu magu orau yn ystod yr haf) yn aderyn deniadol iawn, gyda'i gorff claerwyn yn cyferbynnu'n drawiadol gyda'r plu du tywyll sydd ar ei ben, a'r pig a'r coesau yn goch llachar. Bymtheg mlynedd yn ôl roedd y rywogaeth hon yn dal yn eithriadol o brin yn ardal Porthmadog. Ers hynny fodd bynnag mae wedi cynyddu yn eithriadol yn ei niferoedd, a bellach byddaf yn cofnodi o gwmpas 30 o oedolion y flwyddyn. Bydd y mwyafrif i'w gweld ym misoedd Gorffennaf ac Awst, er bod cofnodion ohonynt ymhob mis. Drwy nodi'r rhifau arbennig a welwyd ar y modrwyau oedd ar goesau ambell i unigolyn, profwyd fod yr adar yma wedi eu geni mewn sawl gwlad ar y cyfandir, gan gynnwys yr Almaen, Gwlad Belg, Ffrainc a'r Iseldiroedd.

Yr wylan leiaf a welir yn y cyffiniau yw'r wylan fechan anghyffredin. Bydd nifer fechan yn mynd heibio'r afon Glaslyn yn y gwanwyn, ond y môr gyferbyn a Chricieth a Morfa Bychan yw'r man gorau yng Ngwynedd i'w gweld. Yr adeg orau i'w gweld yw ar ôl gwyntoedd cryf o'r de-orllewin, a hynny yn ystod y gaeaf. Yn ystod y tywydd garw yma bydd heidiau o hyd at 65 ohonynt i'w gweld, gan amlaf wrth waelod craig castell Cricieth.

Gwylanod prin o'r gogledd yw'r helyw o weddill y gwylanod a gofnodwyd yn yr ardal. Dim ond dau gofnod o wylan yr Arctig sydd yn yr ardal, ac yn anffodus roedd un o'r rheini'n gelain pan gafwyd hyd iddi! Dau gofnod sydd hefyd i wylan Sabine yn yr ardal – y gyntaf oddiar draeth Creigddu a'r llall o Gricieth. Ar y ddau achlysur, gwelwyd y gwylanod hyn ar ôl tywydd gwyntog yn yr hydref.

Gwylan anghyffredin arall yw gwylan y gogledd. Hanner dwsin o gofnodion yn unig sydd gennyf ohoni yma, a hynny o adar ifanc di-brofiad yn ystod y gaeaf.

Ond heb os y ddwy wylan fwyaf nodedig i'w gweld yn yr ardal yw gwylan Ross a'r wylan ifori. Daeth y ddwy wylan yma o'r Arctig ac maent yn eithriadol o brin ym Mhrydain – yn wir, dim ond pedwar cofnod yr un sydd iddynt yng Nghymru erioed.

Mae ymddangosiad y ddwy wylan yma ym Mhorthmadog yn adlewyrchu i mi y wefr a'r siom fawr y mae adarwyr a'r rheini ohonom sy'n ymddiddori mewn adar prin yn mynd drwyddo. I ddechrau – yr wylan Ross. Yn ddiarwybod i mi ar y pryd, gwelwyd yr unigolyn yma ar y mwd ar Llyn Bach ar Ionawr y 15fed, 1995 – tra roeddwn i'n cael 'paned yn y tŷ yma nepell canllath i ffwrdd. Wedi i mi gael gwybod am bresenoldeb yr aderyn, o fewn oddeutu hanner awr wedyn roedd wedi diflannu. Fe'i gwelwyd sawl gwaith wedyn oddiar draeth Morfa

Bychan dros y dyddiau canlynol – ond er i mi dreulio oriau di-ri yno yn edrych yn ddygun amdani, methais a'i gweld.


Gorfu i mi aros dros saith mlynedd hir cyn i mi lwyddo i ddod dros y siom anferth o fethu a gweld yn wylan brin honno. Tra'n gwylio'r môr oddiar arfordir Cricieth ar Chwefror y 9fed, 2002 gwelais wylan glaer wen ymysg y gwylanod cyffredin. Er fod yna bosibilrwydd mai gwylan 'albino' oedd hi, roeddwn yn sicr mai gwylan ifori yr oeddwn wedi ei weld. Dros awr yn ddiweddarach gwelais yr un aderyn yn bwydo ar gorff llamhidydd ar draeth y Greigddu, a'r tro hwn nid oedd amheuaeth gennyf mai oedolyn gwylan ifori yr oeddwn wedi ei gweld.



Gwylan ifori Llun – Paul Gale

Yn ffodus arhosodd yr wylan yn yr ardal tan Chwefror y 26ain, gan ddenu miloedd o bobl o bob cwr o Brydain i'w gweld. Hon oedd yr oedolyn cyntaf o'r rhywogaeth yma i'w gweld yng Nghymru erioed, a'r gyntaf yng Nghymru a Lloegr ers 1957! Dim ond llond llaw o safleoedd ym Mhrydain all ymfalchio yn y ffaith fod y ddwy wylan brin yma o'r Arctig wedi eu cofnodi yno.


Dim ond un wylan o ogledd America sydd wedi ei chofnodi ym Mhorthmadog hyd yn hyn, sef yr <u>wylan fodrwybig</u> a welwyd yma y llynedd. Methiant fu fy ymdrech unwaith eto i weld yr wylan anghyffredin hon.



Gwylan fodrwybig – yng Nghanada! Llun - RhD

Beth tybed am y dyfodol? Pa rywogaeth o wylan fydd y nesaf i gael ei gweld yn y Port?! Yr un fwyaf tebygol yw'r <u>wylan goesfelen</u> o'r cyfandir. Er bod y rhywogaeth yma yn weddol gyffredin yn nwyrain Prydain, a chyda un neu ddwy ohonynt yn ymddangos bob blwyddyn yng Ngwynedd, nid oes gennyf hyd yn hyn yr un cofnod ohoni ar y Glaslyn. Dyliwn hefyd edrych dros fôr yr Iwerydd tua gogledd America. Mater o amser fydd hi mi dybiwn i cyn i <u>wylan Franklin</u>, y <u>wylan chwerthinog</u>, neu <u>wylan Bonaparte</u> ymddangos. Gobeithio y byddaf yn ddigon ffodus i ddarganfod unrhyw un o'r rhywogaethau yma yn fy milltir sgwâr. Wel, mae'n amser i roi'r feiro a'r baned i lawr mi dybiaf a mynd allan am dro – rhag ofn fod un ohonynt ymysg yr haid o wylanod nesaf a welaf yn hedfan uwchben Llyn Bach...wel, mae'n braf breuddwydio weithiau yntydy?!

Prin y gwyddai Elfyn fod ei freuddwyd ar fin dod yn wir! A minnau wedi derbyn yr erthygl gynhwysfawr hon gan Elfyn ar ddydd Sul y 13eg o Dachwedd, prin iawn y dychmygais y byddai gan Elfyn unrhywbeth arall i'w ychwanegu ati! Ond ag yntau wedi bod yn siarad (yn weddol ddigalon, syhwyrais!) nad oedd wedi dod o hyd i aderyn prin ers blynyddoedd bellach, beth welodd Elfyn y diwrnod canlynol ond y wylan fechan hon.



Gwylan chwerthinog (ha ha Elfyn!), Tachwedd 2005 Llun - HDJ

'Gwylan benddu' fe'ch clywaf yn ei ddweud wrthoch eich hunain – a dydych chi ddim yn bell o'ch lle - ydy, mae hi'n debyg iawn o ran pryd a gwedd i'r gwylanod penddu ni. Ond, os sylwch yn ofalus (ac rwy'n gwerthfawrogi nad hawdd yw hi mewn cylchlythyr du a gwyn fel hwn!) fe sylwch fod coesau'n aderyn hwn yn ddu - yn wahanol i goesau coch yr wylan benddu. Mae'r big hefyd yn ddu, ac yn hirach nag un y wylan benddu. Gwylan chwerthinog yw hon, a welwyd gyntaf ym Mhorthmadog gan Elfyn ar ddydd Llun y 14eg o Dachwedd (yn un o amryw a welwyd yng Nghymru dros yr un cyfnod – gan gynnwys un yn Aberystwyth, ac un ger Caerfyrddin). Ond un peth oedd yn arbennig am hon oedd mai dyma'r cofnod cyntaf ohoni yng Ngwynedd, erioed, hyd y gwyddwn! Un arall i restr Elfyn, ac un arall a ellir ei rhestru fel un o'r 15 o wylanod gofnodwyd yn ardal yr afon Glaslyn felly! Os fyddwch chi yn ardal Porthmadog dros y 'Dolig pam na ewch i edrych amdani? Ar hyn o bryd mae digonedd o fwyd iddi (Sglodion Allports!), ac felly nid oes rheswm iddi symud yn fuan. Mae'n gymharol ddof ac mae'n eitha hawdd dod o hyd iddi – gan amlaf bydd ymysg gwylanod eraill yn y maes parcio ger y Cob crwn. Edrychwch am wylan â choesau a phig ddu, a chefn ychydig yn dywyllach na'r gwylanod penddu. [GOL]

# Taith Maes Cob Malltraeth

Huw Dafydd Jones

**'Roedd yn fore Sadwrn heulog braf ar y 19eg o Dachwedd, pan gyfarfu ddwsin o aelodau'r Gymdeithas yn y maes parcio ar ochr ogleddol y cob. Dan arweiniad ysgrifennydd y Gymdeithas, Rhodri Dafydd, y bwriad oedd ymlwybro ar draws y cob i daflu golwg dros y pyllau dŵr croyw ar y naill ochr, a'r môr ar y llall, ac yna ymweld â'r coedydd pîn a'r llyn ar ochr ddeheuol y cob.**




Gan adael y maes parcio a chroesi'r bont dros yr afon Cefni, yr aderyn cyntaf i dynnu ein sylw oedd *mulfran* neu *bilidowcar* yn sefyll â'i adennydd ar led yn manteisio ar y gwres a gynigiai'r heulwen egwan. O'i amgylch 'roedd nifer o *wylanod y penwaig* a *gwylanod penddu,* ambell i *gornchwiglen* a *phibyddion coesgoch*, rhyw ddwy *frân dyddyn* a sawl *jac y do.* Bu i un neu ddau o'r criw fod yn ddigon ffodus i weld fflach o liw gwyrddlas metalig *glas y dorlan*, yn hedfan o dan y bont i gyfeiriad y gors.

Cafwyd golwg dda iawn ar bibydd bach arall a safai yn nŵr y penllanw – *pibydd y mawn*. Aderyn bach eitha cyffredin yw hwn, ac fe'i gwelir weithiau ar ei ben ei hun, weithiau mewn grwpiau bychan, a hefyd mewn heidiau mawr yn bwydo a chlwydo ar wastadeddau mwd a chorsydd, lle y byddant yn hedfan mewn cytgord yn gymylau aerobatig. Yn y gaeaf mae braidd yn ddi-liw, y cefn yn llwydfrown a'r fron a'r bol o liw hufen. Sylwch ar broffil y pig du yn y llun gyda'i flaen chydig bach yn gam. Wrth iddo hedfan mae llinell wen denau a hyd yr adain yn fodd i'w adnabod.



*Pibydd y Mawn* yn ei wisg aeaf – cefn llwydfrown, bron a bol hufen. Pig du yn crymanu ychydig ar i lawr.
Llun HDJ


Ychydig oedd nifer yr hwyaid ar y pyllau croyw gan fod peth o wyneb y dŵr wedi rhewi, ond yn y cyfri gwelwyd *hwyaid llostfain, cwtieir, corhwyaid, hwyaid gwylltion* a hanner dwsin o *wyaich bychan*. 'Roedd yno *greyr glas, gylfinirod,* dau *alarch dof* ac ambell i *ŵydd Canada*.

Yn ddi-os, uchafbwynt yr arhosiad hwn ar ganol y cob oedd cael gweld tua 15 *rhostog gynffonddu* a'r ddau *giach* yn ymguddio yn yr hesg. Wrth gerdded ymlaen gwelwyd *llinosiaid gwyrddion* yn bwydo ar hadau'r gweiriau ar ochr fewnol y cob a *drudwennod* yn hedfan yn heidiau yn ôl ac ymlaen o'r gwair dan lwydrew i frigau'r llwyni ac ambell goeden fechan.

Yn y prysglwyni cafwyd golwg eitha da ar y *titw gynffon hir*, a bu rhai'n ffodus i sylwi ar *ddryw eurben* yng nghanol y mieri. Ar ochr y môr i'r cob yr oedd heidiau o *linosiaid cyffredin* a *bras y cyrs* unwaith eto yn bwydo ar hadau'r gweiriau yn ffinio â'r heli.

Ar daith fel hon, mae'n amhosibl cadw pawb gyda'i gilydd, a thra aeth nifer yn eu blaenau arhosodd un neu ddau ar ôl i wylio'r llinosisid yn chwilota yn y gwair. Mawr fu eu gwobr gan iddynt gael profiad bythgofiadwy! O gyfeiriad yr haul, gwibiodd *gudyll bach* i ganol y llinosiaid, a chipio un yn ei grafangau. Aderyn sy'n debyg iawn ond yn llai na'r hebog tramor yw'r *cudyll bach,* a chan fod yr un a welwyd yn frown gyda bandiau golau ar draws y gynffon, roedd yn amlwg mai iâr oedd hon. Aeth i fwyta'i helfa ar bostyn yng nghanol yr hesg.





Cudyll bach yn yn bwyta'i helfa ar bostyn yn y gors. Yn y cefndir gwelir y creyr bach.

Llun HDJ

Ym mhen deheuol y cob mae coedwig o goed piwydd yn ymestyn i'r gorllewin tuag at Ynys Llanddwyn. 'Roedd barrug y bore yn dew mewn ambell fan ac yn cyfrannu tuag at yr ias rewllyd dan y canghennau. Ychydig yn siomedig oedd nifer yr adar wrth ymlwybro drwy'r coed, gan na welwyd dim ond *robin goch* a *thitw tomos las.* Er hyn, clywyd galwad un aderyn a oedd yn sicr yn cadw golwg arnom o'r canopi bythwyrdd, - y *gnocell fraith fwyaf.*

Wrth ddilyn glan yr aber a chan gadw golwg dros y gors a gwastadedd tywod Malltraeth, gwelwyd nifer dda o *hwyaid yr eithin* a hefyd haid o *bibyddion yr aber.* Mae'r pibydd bach yma ychydig yn fwy na phibydd y mawn ond yn y gaeaf, â'i gefn brith lwyd, mae'n ymddangos yn 'oleuach' na phibydd y mawn a'i big du ychydig yn llai ac ychydig yn sythach. Mae pibydd yr aber eto'n bwydo a chlwydo mewn heidiau enfawr ar wastadeddau mwd a chorsydd, a byddant hwythau yn hedfan mewn cymylau aerobatig.



Amser cinio. "Dwi wedi dod â bwyd i'r adar!" llun HDJ


Cyrhaeddwyd y safle picnic ger y llyn, neu'n hytrach y 'pwll' bywyd gwyllt, yng nghanol y coed erbyn cinio. Rhoddwyd y byd yn ei le dros baned yng nghwmni dau robin goch busneslyd cyn mynd ymlaen i'r guddfan ger y llyn. Yn y mieri ar ochr y guddfan daeth dryw bach i fusnesu pwy oedd yno.

Ni chawsom ein siomi gan amrywiaeth y rhywogaethau a welwyd ar ac ar lan y dŵr. Dyma restr o'r hyn a welwyd: *iâr ddŵr, cwtieir, gwyach fach, corhwyaden, chwiwell, hwyaden lydanbig, hwyaden lostfain, hwyaden lwyd, hwyaden wyllt, hwyaden yr eithin, hwyaden gopog, creyr glas.* Os y byddwch yn gyrru ar hyd yr A4080 o Niwbwrch i Falltraeth, mae'n werth ymweld â'r llyn bach yma gan fod amrywiaeth dêg o hwyaid i'w gweld.

Wrth gerdded yn ôl dros y cob, â'r haul yn isel yn y gorllewin, teimlwyd yr ias aeafol unwaith eto. Â phawb yn teimlo fod gweithgaredd y diwrnod ar ben, gwelwyd un golygfa arall nad â'n angof – *creyr bach* yn hedfan i chwilio am le i glwydo. Hedai'n osgeiddig, y coesau du o'i ôl, y corff claerwyn a'r adenydd ar ffurf bwa. Diweddglo arbennig fe dybiwch i'r diwrnod - gwelwyd tua deugain gwahanol rywogaeth. Ond, fel petae hynny ddim digon, mynnodd un neu ddau groesi'r ynys i dywod Pentraeth i geisio golwg ar drydydd creyr - sef y creyr gwyrdd, - ond mae honno'n stori arall!



Y Creyr gwyrdd ym Malltraeth Llun - HDJ



## Ehediad di-blu.

Tom Jones, Golan

**'Pam y pennawd yma tybed?!' clywaf chwi yn dweud wrthych eich hunain! Wel wrth bysgota rai blynyddoedd yn ôl ar yr afon Dwyfor, a hynny yn oriau'r tywyllwch, mi fyddai pethau rhyfedd yn digwydd wrth bysgota â phluen yn aml.**

Bydd y rhan fwyaf o bysgotwyr yn pysgota gyda dwy bluen ar y wialen - un ar flaen y llinyn, a'r llall rhyw ddwy droedfedd yn uwch i fyny. Pwrpas hyn yw i roi dewis i'r siwin p'run yr hoffai orau.

Wrth daflu'r bluen ar wyneb y dŵr byddai yn rhaid ei thaflu i'r awyr tuag at yn ôl rhyw ddwywaith neu dair, neu ambell waith fwy na hynny, a'r gamp wedyn oedd i'w chael i lanio ar wyneb y dŵr gyda chyn lleied o gynnwrf ag oedd yn bosib. Wrth wneud hyn ai'r bluen tuag at yn ôl, ac yn achlysurol fe deimlech rywbeth od yn digwydd - fel pe baech wedi bachu rhywbeth neu'i gilydd. Y peth nesaf a deimlid oedd ychydig o bwysau ar y lein, a honno yn disgyn ar wyneb y dŵr yn ddireol a chyda sŵn 'plop' uchel! Wel beth oedd wedi digwydd medda chi?!

Wrth daflu'r lein at yn ôl, a'r plu yn hedfan drwy'r awyr, byddai ystlum wedi bachu yn y bluen, a byddai honno wedi mynd yn sownd yn ei aden neu weithiau yn ei gorff (ond pur anaml y digwyddai hynny - yn yr aden y byddai rhan amlaf).

Mae'n debyg y byddai 'sonar' yr ystlum yn synhwyro'r bluen yn yr awyr, ac y byddai'r ystlum yn meddwl mai pryfyn byw fyddai yn hedfan heibio. Byddai'r ystlum druan yn ei ddal gan feddwl cael pryd ohono. Wel andros o job wedyn ei gael yn rhydd heb wneud mwy o ddifrod i'r creadur bach, gan mor feddal a bregus yw ei adennydd. Ar yr un pryd roedd yn rhaid gwylio eich bysedd, neu fe fyddai'r coblyn bach yn plannu ei ddannedd miniog i'ch llaw neu fys, ac fe waedai hwnnw yn hir wedyn!

Dim ond un neu ddau a gollais - un wedi ei ddal yn ei lygaid ac roedd hwnnw wedi ei anafu'n rhy ddrwg i'w adael yn ôl i'r gwyllt - ac yn anffodus gorfu ei ddifa. Gwlyb oedd y llall, ac fe'i gadawyd ar ben y wal gyfagos i ddod ato'i hun - ond trengu wnaeth o mewn dim – mae'n bosib hefyd ei fod wedi cael mwy o godwm na'r lleill wrth drawo gwyneb y dŵr.

Ystlumod pedol lleiaf fyddai pob un - ni welwyd yr un o'r rhywogaethau eraill yn cael eu dal. Roedd yn debyg i mi y byddai yr ystlum yn hedfan am y bluen ac yn cau ei adenydd amdani - a dyma sut y byddai'r bach yn ei aden bron bob tro. Efallai y dywed rhywun arall nad dyna a ddigwydd, ac mai dal ei bryd yn ei geg y mae, ond methu deallt ydw i pam, os felly, na chafwyd yr un erioed a phluen yn ei geg?!

Efallai y caf eglurhad yn y rhifyn nesaf o ***Llygad Barcud***?!

# Jac y Do Rwsia yng Nghymru ?

Dewi Lewis, Clydach

**Codi cwestiwn yn hytrach na chynnig ateb yw'r bwriad a cheisio ennyn ymateb. Yn ddiweddar rhoddwyd sylw i haid o jac doeau sydd yn ymgasglu ar do sinema y Coliseum ym Mhorthmadog(1), golygfa debyg i'r hyn a welir mewn sawl ardal yng Nghymru siwr o fod.**

Awgrymodd Elfyn Lewis y dylid edrych yn fanylach ar heidiau tebyg rhag ofn bod adar o'r is-rywogaeth *Corvus monedula soemmeringii* yn eu plith. Yn ôl Elfyn 'roedd wedi cofnodi unigolion o'r is-rywogaeth yma yn ei ardd ym Mhorthmadog rhwng Tachwedd yr 8fed a Rhagfyr y 31ain, 2003(2).

Prin iawn yw'r cyfeiriadau at yr is-rywogaethau yn adroddiadau blynyddol adaryddol o siroedd Cymru ac ni cheir cyfeiriad o gwbl atynt yn "Birds in Wales" (Williams 1994). Yn dilyn annogaeth Elfyn, euthum ati i wylio ac edrych yn fanylach ar y jac y do a ddeuai i fwydo yn fy ngardd yng Nghlydach, Abertawe. Cofnodais unigolion a ymdebygai i'r is-rywogaeth *soemmeringii* ar sawl achlysur yn ystod gaeaf 2004/2005. Y gamp, (a thipyn o gamp yw hi hefyd!), yw ceisio gwahaniaethu yr adar unigol a'u dosbarthu fel aelodau o is-rywogaeth benodol.

| Yn ôl yr arbenigwyr gellir dosbarthu jac y do i dair neu bedair hîl (race) a hepgor rhai o'r hollti pellach; |
|---|
| **Jac y do gorllewinol** Western Jackdaw *Corvus monedula spermologus*<br>**Jac y do Nordig** Nordic Jackdaw *Corvus monedula monedula* (3,4)<br>**Jac y do Rwsia** Russian Jackdaw *Corvus monedula soemmeringii*<br>**Jac y do Algeria** Algerian Jackdaw *Corvus monedula citrensis* (5) |

Ar y cyfan ystyrir jac y do fel aderyn brodorol ond tuedda'r boblogaeth mwyaf gogleddol fudo yn ystod y gaeaf. Ystyrir jac y do Rwsia fel mudwr "go iawn" gydag adar ifanc (h.y. adar yn eu blwyddyn gyntaf) yn mudo llawer ymhellach nag adar hŷn. Yn ystod y cyfnod mudol cofnodir jac doeau yn aml yng nghwmni Ydfrain (*Corvus frugilegus*) (5). Oherwydd patrwm mudo i'r de a'r gorllewin yn ystod yr hydref a'r gaeaf gellir disgwyl cofnodi jac y do Nordig a Rwsia yng Ngogledd-Orllewin Ewrop.

Nodwedd amlwg â berthyn i is-rywogaeth Nordig a Rwsia yw coler wen - nid yw ein hadar brodorol ni yn arddangos coler debyg yn ystod y gaeaf. Mae maint ac amlygrwydd y goler yn amrywio mewn unigolion - ac yma y gorwedd y broblem o adnabod yr adar yn y maes a'u dosbarthu i'r is-rywogaeth neu'r hîl briodol.

Yn fy mhrofiad i o wylio'r unigolion yma yn bwydo yn yr ardd mae eu hymddygiad tipyn yn wahanol i'r adar brodorol. Ar y cyfan tuedda'r unigolion yma fod yn fwy swil eu natur, gan fwydo yn fwy "nerfus" a

threulio cyfnodau byrrach yn yr ardd. Sylwyd ar yr un nodwedd ymysg yr adar a welodd Elfyn ym Mhorthmadog.

Y cwestiwn, felly, yw a ellir adnabod pob jac y do yn ystod y gaeaf fel aelod o is-rywogaeth benodol?

Yn anffodus yr ateb yw na. Yn sicr yn y maes gellir adnabod unigolion fel is-rywogaeth ar wahan i'r *monedula spermologus*, ond anodd iawn yw eu gosod o fewn is-rywogaeth benodol. O'r holl is-rywogaethau, mae'n siwr mai'r gorllewinol a'r un o Rwsia yw'r hawsaf i'w hadnabod yn y maes.

Ond beth bynnag am yr "hollti plu" mae'n werth sylwi yn fanylach ar heidiau o jac doeau er mwyn ceisio sylwi ar unigolion sydd gyda nodweddion sydd yn eu gosod ar wahan.

Y sialens i chi felly yw sylwi ar jac doeau yn ystod y gaeaf, ac efallai anfon ymateb i Llygad Barcud yn ystod y gwanwyn os dowch o hyd i unrhywbeth anghyffredin! Diolch i Elfyn am dynnu ein sylw at y nodweddion yma a berthyn i jac y do.



Jac y do Rwsia – tybed?! Clydach, Abertawe, Rhagfyr 2004.

**Cyfeiriadau:**


(1) "*Yr Wylan*" Cyf 29, Rhif 1, Medi 2005
(2) "*Welsh Birds*" Vol 4, No 2, (2004)
(3) Voous, K. H. "The Post-glacial distribution of *Corvus monedula* in Europe". *Limosa* 23: 281-292 (1950)
(4) Voipio, P. "The Geographical Variation in *Corvus monedula* in Finland". *Ardea* 57: 48-63 (1969)
(5) Cramp, S & Perrins, C. "*The Birds of the Western Paleartic*" (8). Oxford (1994)


**Darllen Pellach:**


Offereins, R. "*Identification and Occurrence of Eastern Jackdaw in the Netherlands*"
www.geocities.com/RainForest/Jungle/7550/Jackdaw/htlm
Harrop, A. "Identification of Jackdaw forms in northwestern Europe" *Birding World* Vol 13, No 7.

# Y Creyr glas, y Creyr gwyrdd a'r Creyr bach

Huw Dafydd Jones

**Perthyn y creyr i deulu'r *Ardeidae* ac fe'u cyfrir fel un o'r *Ciconia* sy'n cynnwys y creyrod (herons), adar y bwn (bitterns), creyrod gwyn (egrets) y crymanbig (ibises) a'r ciconia (storks). Maent i gyd yn hirgoes, yn hirwddf, yn hirbig, ac yn ganolig neu fawr o ran eu maint. Maent i gyd yn adar sy'n rhydio, a'u traed yn ddi-wê. Mae pigau yr ibis a'r llwybig yn nodweddiadol o'r rhywiogaethau hyn. Wrth hedfan, mae'r creyrod yn tynnu'u gyddfau at eu cyrff, ond ymestyn eu gyddfau wna'r ciconia.**




Creyr Glas

### Y Creyr glas

Mae'r **creyr glas** yn fawr o ran maint, ei gorff yn 85cm i 102cm o ran hyd, a'r adenydd rhwng 155cm a 175cm ar led. Mae gan yr aderyn aeddfed gefn llwyd, bron a gwddf gwyn gyda phatrwm du i lawr y gwddf a'r fron. Mae ei big melynwyrdd â ffurf tebyg i gyllell neu ddagr, yn llawer mwy oren yn y gwanwyn pan ddaw'n dymor paru a nythu. Bydd fel arfer yn nythu mewn creyrfa gyda nifer o grehyrod eraill yn uchel mewn coed.

Mae'n aderyn cyffredin iawn yng Nghymru, ac wedi bod yma er cyn cof. Mae ein llenyddiaeth yn frith o gyfeiriadau at yr aderyn hynod hwn. Pwy na welodd ef yn sefyll ar ben ei hun mewn cae gwlyb, neu weithiau, mewn cae ymhell o ddŵr. Yn amlach fe'i gwelir â'i draed mewn dŵr, neu wrth ochr ffos, yn aros yn amyneddgar, weithiau ar un goes, i bysgodyn bychan fentro o fewn cyrraedd i'w big hir angeuol. Mae bellach yn ddigon hy i ymweld â phyllau pysgod mewn gerddi. Enwau eraill arno yw Crychydd, Crychydd Cam, Crydd, Crydd Glas, Crech y Dindon, Crechi Ding Dong a Garan.

**Y Creyr gwyrdd**

Fe nodir yn hanes y daith maes i Gob Malltraeth fod un neu ddau o'r criw, yn hwyr y prynhawn, wedi croesi Ynys Môn i geisio gweld y **creyr gwyrdd** a ymddangosoddd ar Draeth Coch ar ddechrau mis Tachwedd. Nid oes tystiolaeth i'r rhywogaeth hon gael ei gweld erioed o'r blaen yng Nghymru. Ychydig iawn o lyfrau adar cyffredin sy'n cynnwys manylion amdano gan mai aderyn dieithr yw ym Mhrydain. O roddi iddo ei enw Lladin, *Butorides striatus,* gellir ei alw'n greyr rhesog, a gwelir y rhesi patrymog o liw hufen ar ei wddf a'i fron yn y llun.

Ceir dwy is-rywogaeth o'r creyr gwyrdd. Cynefin arferol yr is-rywogaeth *butorides striatus brevipes* yw De Israel a bydd yn mudo oddi yno i fagu yn Ne Sinai. Ond credir mai aelod o'r is-rywogaeth *butorides striatus virescens* neu creyr gwyrdd y mangrof (mangrove heron) oedd yr un ym Mhentraeth. Mae'n debyg ei fod wedi ei chwythu dros yr Iwerydd oedd o, gan stormydd yr hydref, o'i gynefin arferol yng ngogledd America



Llun HDJ

Creyr bychan yw hwn, ei gorff yn mesur o 40cm i 47cm, a'r adenydd rhwng 60cm a 73 cm ar led. `Roedd gan yr aderyn a welwyd ym Mhentraeth gefn gwyrdd-lwyd sgleiniog a bron a gwddf oren/frown gyda phatrwm rhesog hufen amlwg. Mae ymylon hufen amlwg i blu eilradd yr adenydd hefyd. `Roedd y coesau yn felyn a'r pig yn rhannu'n ddeuliw – y rhan uchaf yn wyrdd-lwyd tywyll iawn, a'r rhan isaf yn felyn. Nid yw'r lluniau du a gwyn yn gwneud cyfiawnder â'i liwiau bendigedig.

**Y Creyr Gwyrdd/Rhesog** *Butorides striatus*


Cefn gwyrdd-lwyd sgleiniog. Bron a gwddf oren/frown gyda phatrwm rhesog hufen amlwg. Ymylon hufen amlwg i blu'r adenydd. Coesau melyn a'r pig yn rhannu'n ddeuliw – y rhan uchaf yn wyrddlwyd tywyll iawn, a'r rhan isaf yn felyn.

Beth tybed fydd y dyfodol i'r creyr bychan yma? Mae'n ymddangos fod y cyflenwad bwyd yn Nhraeth Coch yn ddigon i'w anghenion ar hyn o bryd. Y gofid pennaf yw y bydd tywydd rhewllyd y gaeaf yn ddigon am ei einioes. Gofid arall yw'r aflonyddu sy'n

digwydd gan y niferoedd o wylwyr sy'n mynd yno i geisio'i weld. Mae straeon ar led fod rhai ohonynt yn mynd â chŵn i'r gors i ddychryn a chodi y creyr bychan er mwyn iddynt gael cip arno. Mae'n bur anhebyg y bydd yn goresgyn y gaeaf, ond os y gwna bydd y gwanwyn yn unig iawn iddo heb gymar. Efallai y cawn storm arall....

## Y Creyr bach

Mae presenoldeb y creyr arall sydd yma yng Nghymru yn awgrymu fod yr hinsawdd yn cynhesu. Erbyn heddiw mae'r **creyr bach** (*Egretta garzetta*) i'w weld yn amlwg iawn yn ei gôt wen yn aberoedd aac ar wastadeddau mwd yr arfordiroedd. Mae yn araf ymledu tua'r Gogledd yn Ewrop ac i'w weld mewn gwlyptir dŵr croyw yn ogystal ag ar yr arfordiroedd dŵr hallt.




Y creyr bach yn sefyll fel soldiwr. Sylwer ar y traed melyn (goleuach yn y llun du a gwyn)

Mae'n aderyn eitha' bywiog ac ystwyth wrth hela'i brae, sef pysgod bychan, llyffantod a malwod. Gall hefyd sefyll yn llonydd am amser. Fel y creyr glas, fe'i gwelwyd ar ddwy daith maes y Gymdeithas Ted y gaeaf hwn – ym Malltraeth ac ym Mochras (gweler yr adroddiad ar daith Malltraeth yn y rhifyn hwn – bydd adroddiad ar daith Mochras yn y rhifyn nesaf).

Mae'r creyr bach ychydig mwy na'r creyr gwyrdd ond yn llai na'r creyr glas. Mae rhwng 55cm a 65cm o ran hyd, a'r adennydd rhwng 88cm a 106cm ar led. Nid oes unrhyw anhawster disgrifio'r creyr hwn gan fod ei blu'n hollol wyn a'i big ei goesau'n dduon a'i draed di-we'n felynion. Yn y gwanwyn a'r tymor paru bydd plu hir yn datblygu ar gefn y pen, a dyna sy'n cyfri am yr enw arall geir arno, weithiau, sef y creyr bach copog.

Mae'n gwneud nyth o frigau ar goed, gydag un deoriad rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf a hynny fel arfer yng nghwmni nifer o greyrod bach eraill. Y flwyddyn 2002 oedd y flwyddyn gyntaf iddo nythu yng Nghymru,

Arferai'r aderyn Ewropeaidd fudo i'r Affrig a'r Dwyrain Canol yn y Gaeaf, ond bellach â'r rhywogaeth yn ymestyn tua'r gogledd mae yn treulio'r gaeaf yn llwyddiannus yng Nghymru.

Pan ddaw'r gwanwyn, bydd y creyr glas a'r creyr bach yma gyda ni, ond tybed os fydd y trydydd wedi goroesi yn ei gynefin dieithr? Hei lwc ynde?

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

**Plas Tan y Bwlch**

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

Gymdeithas Ted Breeze Jones

ac i

LLYGAD BARCUD

Holwch am raglan o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig , neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch:
01766 772600

## Cysgod sydyn dros y waun*

Gwilym Tudur

**Gall creadur diniwed newid ei gymeriad weithiau pan gaiff ei fygwth neu i'w deulu gael eu bygwth. (A ninnau run fath - oni fydd y mwyaf diniwed ohonom yn troi'n ddiangen o ffyrnig ar wenynen neu lygoden fach!) Creadur mwyn a gwaraidd ydi'r dolffin, ond ar adegau prin gall fod yn gïaidd. Gwnaed ffilm yn ddiweddar mewn aber yn yr Alban o haid ohonynt yn hela'u perthynas llai, y llamhidydd, a'i luchio i fyny a'i ladd. Ni wyddys pam yn iawn ac yntau'n arfer cyd-fyw yn ddigon diddig efo'r dolffin; dichon bod y 'llambedyddiol' hwn yn fygythiad o ran iechyd neu hela, neu'n ymyrryd â'r teulu mewn rhyw fodd.**

Mi sgrifennais nodyn yn rhywle arall am iâr hwyaden wyllt yn ymosod ar alarch dof i amddiffyn ei chywion (gweler Mair E.Jones a minnau, *Amen Dyn Pren*, 2004, tud 209-210). Tua dechrau'r gwanwyn y flwyddyn honno ydoedd, ac roedd y llyfr wedi mynd i'r wasg cyn i mi weld - eto yn Sir Benfro ond yn y rhan ogleddol - digwyddiad tebyg iawn sy'n werth ei grybwyll, efallai, gan ei fod yn bur anarferol yn fy mhrofiad i beth bynnag.

Ym Mhenfro - fel yn Llydaw - nodwedd ddiddorol o'r tirlun yma ac acw yw'r clwstwr tai o gwmpas buarth ffarm hynafol, a elwir fel rheol yn Tre- rhywun neu rywle. Un o'r goreuon, sydd bron yn bentref o gryn ddwsin o dai, yw Treleddyd Fawr yn ardal Tyddewi. Doedd Megan a fi erioed wedi bod yno nes dod ar ei draws wrth gerdded, ym mis Mehefin rwy'n meddwl (collais y cofnod o'r dyddiad). Buom yn sbeuna o gwmpas yr hen le, tra yn gwibio o'n cwmpas ar y pryd roedd degau o wenoliaid a gwenoliaid y bondo.



Ceisio gweld a oedd gwennol ddu yn eu plith yr oeddwn i, yna wrth syllu fry gwelsom gudyll coch yn dynesu'n hamddenol. Yn syth, dyma haid o'r gwenoliaid (yr oedolion mae'n debyg) yn closio at ei gilydd a hyrddio tuag at y cudyll gan droelli o'i gwmpas. Ceisiai yntau symud yma a thraw i'w hosgoi ond roedd y cwmwl gwenoliaid yn ei ddilyn fel magned. O'r diwedd dyma fo'n rhoi'r gorau iddi ac yn gleidio draw oddi yno - a'r gwenoliaid bach yn ei erlid o hyd am sbel. Wedyn dychwelodd yr haid gan wasgaru dros y buarth, a hela gwybed eto ar bnawn braf fel pe bai dim oll wedi digwydd. Ia, mewn undeb mae nerth!

O.N. Mae'n rhyfedd braidd bod y cudyll coch yn codi'r fath banig - a ddisgrifir mor dda gan y bardd yn ei gerdd enwog - oherwydd nid yw'n llawer o fygythiad i adar sydd ddim yn nythu ar lawr. Y cudyll glas, ie. Medr hwnnw gipio cyw ar ei adain yn rhwydd, hyd yn oed un mor gyflym â'r wennol. A'r gwalch bach a'r hebog tramor ac ati yr un modd. Wedi canrifoedd o brofiad a chyflyru oni allai'r gwenoliaid uchod adnabod hen gudyll ar sgawt didramgwydd yn chwilio am ryw lygoden neu lyffant?

Wrth gwrs, pan fydd cudyll coch yn hofran i chwilio am gywion ar lawr, mae'n anodd iddo beidio gweld cinio blasus, a chael enw drwg ym myd yr adar mân! Tybed a oes rhywun o ddarllenwyr y Llygad wedi bod yn dyst i hynny, yn gywion adar neu ieir?

* Y Cudyll Coch', I.D.Hooson (*Cerddi a Baledi*, tud. 44)

# Cymdeithas Ted Breeze Jones

## Rhaglen Weithgareddau Gwanwyn 06

***Ionawr 25ain, 2006*** – Sgwrs: *Y Gwybedog Brith yn Abergwyngregyn*, Duncan Brown. Y Stablau, Plas Tan y Bwlch am 7.30yh

***Chwefror 11fed, 2006 – Arolwg o Adar y Gaeaf ym Mhorthmeirion***. Trefnwyr: Twm Elias & Rhodri Dafydd. Cyfarfod: Maes Parcio Porthmeirion am 10.30yb

***Chwefror 14eg*** – Sgwrs, Y Frân goesgoch – Kelvin Jones. Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, 7.30 yh

***Mawrth 11fed, 2006*** – Taith maes Y Trochydd Mawr a llawer mwy – ***Aberdesach, Pontllyfni a'r Foryd***. Arweinydd Rhys Jones. Cyfarfod: Maes Parcio Aberdesach, ger y traeth (SH 425514) am 10.00yb

***Mawrth 17eg – 19eg, 2006 – Cwrs Adar y Gaeaf***, Plas Tan y Bwlch, ar y cyd â Chymdeithas Edward Llwyd – gweler yr hysbys yn ***Llygad Barcud***.

***Ebrill 8fed, 2006*** – Taith maes, Llyn Trawsfynydd (Cyfle i drafod Cynllun y Llyn). Arweinyddion: Keith O'Brien ac eraill. Cyfarfod: Maes Parcio canol y pentre, 10.00yb

***Mai 4ydd, 2006*** – Sgwrs: ***Dipyn o Dderyn?*** Dewi Lewis, Y Ganolfan, Porthmadog 7.30yh

***Mai 6ed, 2006 – Arolwg o Adar y Gwanwyn ym Mhorthmeirion***. Trefnwyr: Twm Elias, Dewi Lewis a Rhodri Dafydd. Cyfarfod: Maes Parcio Portmeirion am 10.30yb

***Y Troellwr Mawr*** – Taith maes hwyrol i weld yr aderyn rhyfedd hwn: dyddiad ym Mehefin i'w drefnu. Manylion yn rhifyn Pasg ***Llygad Barcud***.